Cofnodion Panel Darparwyr 17/06/09 – 1.30yp Ystafell Madog, Coleg Llandrillo

Presennol:
Liz Williams, Coleg Glannau Dyfrdwy; Ann Rhian Hughes, Coleg Menai; Jane Watkins, Coleg Llysfasi; Pam Evans-Hughes, CCiO; ; Siwan Hywel, CCiO; Ifor Gruffydd, CCiO; Sian Eirian, CCiO; Haydn Hughes, CCiO; Dafydd Rhys, CHWEA; Frances Jones, Popeth Cymraeg; Howard Edwards, Popeth Cymraeg; David O Jones, Prifysgol Glyndŵr; Kevern Kerswell, Coleg Iâl; Jina Gwyrfai, CCiO; Catrin Keller, Coleg Llandrillo; Ellen Roberts, CCiO.

1. **Ymddiheuriadau**: Rhian McCarthy, Coleg Llandrillo; Llinos Hicks, CHWEA; David Hedley Williams, Nant Gwrtheyrn; Elwyn Hughes, Prifysgol Bangor; Myfi Brier, Coleg Llysfasi; Dona Padan, Coleg Llysfasi; Eleri Swift Jones, Prifysgol Bangor; Sharon Owen, Coleg Menai.

Cymerodd Ifor Gruffydd y gadair yn absenoldeb Elwyn Hughes

2. **Cofnodion** Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 25 Mawrth 09 yn gywir.

3. **Materion yn codi –** pob pwynt angen ei godi ar yr agenda

4. **Adroddiad y Cyfarwyddwr**
   - Pwysleisiwyd yr angen i hyrwyddo'r arholiadau fel rhai am ddim ac atgoffodd IG yr aelodau fod hyn er mwyn sicrhau cysondeb gydag unedau RhCA (lle nad oes tâl ar ddysgwyr am gredydau). Yn ogystal, nododd y byddai darparwyr yn derbyn arian cyflawniad yn achos ymgeiswyr arholiad llwyddiannus.
   - Cytundebau Darparwyr - bydd y Ganolfan yn gofyn i benaethiaid sy'n arwyddo'r cytundebau sicrhau fod eu staff sydd â chyfrifoldeb am ddarpariaeth CiO yn ymwybodol o holl ofynion y cytundeb

5. **Adroddiad y Swyddogion Datblygu** - cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddogion Datblygu.
   - Aeth Jina Gwyrfai trwy dargedau a dadansoddiad darpariaeth 2008 – 2009 ac adrodd ar y sefyllfa gyda rhaglen 2009 – 2010.
   - Dangosodd Pam Evans Hughes y taflenni newydd sydd wedi cael eu paratoi gan staff y Ganolfan ar gyfer cwrs TWF, maent bellach yn barod i'w defnyddio. Yn anffodus nid oes gan TWF swyddog yn gweithio yn siroedd Fflint a Wrecsam ac felly nid oes darpariaeth yno, fodd bynnag mae nifer y sesiynau yn cynyddu ym mhob sir arall.
   - Mae cwrs trochi wedi dechrau yn Ysgol Llywelyn ar gyfer rhieni plant fydd yn trosglwyddo i Ysgol Glan Clwyd.
   - CBAC enillodd y tendr i ddatblygu cwrs cenedlaethol CiT a bydd Owen Saer a Pam Evans Hughes yn ei ysgrifennu. Bydd yn cael ei beilota yn 2010/2011 a bydd y Ganolfan yn gofyn i CHWEA gyflwyno'r cwrs hwn yn y gogledd fel cwrs prif ffrwd, a hynny ar lefel Mynediad yn y lle cyntaf.
   - Mae gan y Ganolfan gopïau o Ganllawiau Bwrdd yr Iaith ar ddarparu i'r gweithle a byddant yn cael eu dosbarthu i'r darparwyr.
   - Mae Coleg Llysfasi wedi lansio CD ar gyfer gwasanaethau brys ac wedi datblygu adnoddau addysgu.
   - Mae Coleg Menai wedi datblygu sustem mentora ar lein i weithwyr y llysoedd – gweler cyflwyniad Ann Rhian Hughes – eitem 10
   - Apeliodd Jina Gwyrfai ar i ddarparwyr rannu gwybodaeth am gyrsiau, adnoddau ac ati y maent yn eu datblygu ar gyfer y gweithle.
   - Mae adnodd Oriel Ynys Môn wedi cael enw - Cynfas Celf - a bydd yn cael ei beilota yn Ysgol Haf y Brifysgol eleni.

6. **Dysgu Anffurfiol** – cyflwynodd Siwan Hywel adroddiad ar ddatblygiadau diweddar. Tynnodd sylw at rai o'r prif bwyntiau

- bu newidiadau yn nhargedau a blaenoriaethau Bwrdd yr Iaith. Bellach mae'r Mentrau yn dal i weithredu ac yn gwahodd dysgwyr i'w digwyddiadau yn hytrach na threfnu'n benodol ar eu cyfer.
- diolchwyd am yr holl gyfraniadau tuag at Newyddlen y Ganolfan sydd ar fin cael ei chyhoeddi
- bydd posib cofrestru manylion am ddigwyddiadau allgyrsiol i ddysgwyr ar wefan y ganolfan www.learncymraeg.org yn fuan
- tra'n cydnabod fod anawsterau ymarferol wrth sicrhau bod tiwtoriaid rhan amser yn cyfrannu at weithgareddau dysgu y tu allan i'r dosbarth, oherwydd y pwysigrwydd cynyddol a roddir gan APADGOS ac Estyn, ymysg eraill, ar ddysgu anffurfiol, bydd angen i ddarparwyr fuddsoddi cyfran o'u dyraniad ar weithgareddau dysgu anffurfiol yn 2009/10.

7. **Hyfforddiant** – cyflwynodd HH adroddiad ar ddatblygiadau diweddar, gan dynnu sylw penodol at y canlynol:

- Dydd Mawrth fydd diwrnod y tiwtoriad ar Faes D Eisteddfod y Bala a cyflwynir tystysgrifau i'r rhai wnaeth y Cymhwyster yn 2008.
- Mae modiwlau 1 a 2 o Gymhwyster 2008-10 a'r ymarfer dysgu wedi ei gwblhau. Mae pob ymgeisydd wedi cael ei arsylwi a sampl wedi eu harsylwi'n allanol. 'Roedd yr arsylwr allanol yn hapus iawn a phawb wedi llwyddo. Bydd modiwl 3 a 4 yn cael ei gwblhau yn ystod y flwyddyn nesaf.
- Bydd Canolfan y Gogledd yn cynnig Cymhwyster 2009-10 mewn blwyddyn ac mae'r recriwtio wedi dechrau. Os oes gan ddarparwyr diwtoriaid sydd angen cymhwyso yna dylent gysylltu â'r Ganolfan rhag blaen.
- Bydd y Ganolfan yn creu rhaglen ddrafft o'r hyfforddiant y mae'n bwriadu ei chynnig yn y flwyddyn nesaf ac yn ei chylchredeg gan wahodd sylwadau. Gofynnwyd i'r aelodau hysbysu'r Ganolfan o unrhyw beth yr hoffent weld yn cael ei gynnig yn ychwanegol. Bydd y rhaglen yn cael ei thrafod yn y cwrs tiwtor-drefnyddion yn Llangollen ym mis Gorffennaf.
- Bydd enwau darpar diwtoriaid sydd wedi cwblhau cylch o hyfforddiant naill ai dros 3 penwythnos neu yn yr ysgol haf yn cael eu cylchredeg i'r darparwyr.

8. **Data** - cyflwynodd IG adroddiad ar lafar. Nododd fod:

- pob darparwr naill ai wedi cyrraedd eu targed neu'n agos at wneud hynny. Roedd yn hyderus y byddai'r Ganolfan yn cyrraedd ei tharged fel rhanbarth ac yn sicrhau cynnydd cyllid o 10% yn 2009/10 a diolchodd i bawb am eu gwaith caled wrth sicrhau hyn. Mae GS ac IG yn cynnal cyfarfodydd gyda swyddogion data a swyddogion CiO darparwyr er mwyn hwyluso'r broses cyflwyno data i'r ddwy ochr yn 2009/10.

9. **Cyhoeddusrwydd a Marchnata**

Cyflwynodd IG adroddiad llafar a nododd fod:

- y Ganolfan yn awyddus i gael straeon o'r gogledd ar gyfer pob rhifyn o 'Y Tiwtor' ac felly'n ymbil am straeon i'w pasio ymlaen.
- llyfryn y Ganolfan yn cael ei gynhyrchu eto eleni
- y Ganolfan wedi sicrhau presenoldeb a mewnbwn i'r gweithgareddau ar faes D yn yr Eisteddfod yn Y Bala, dylai unrhyw un sy'n dymuno cyfrannu gysylltu â staff y Ganolfan.
- y Ganolfan yn gobeithio defnyddio radio 'Heart FM' i godi ymwybyddiaeth am y ganolfan ac am ddysgu Cymraeg ledled y gogledd. Bydd hyn yn cefnogi gwaith hyrwyddo cyrsiau y mae darparwyr yn ei wneud eu hunain.

10. **Prosiect Mentora ar-lein – cyflwyniad gan Ann Rhian Hughes, Coleg Menai**

Bu hwn yn brosiect a ddatblygwyd dros flwyddyn o amser ar gyfer gweithwyr y Llysoedd drwy Gymru. Mae'n ffordd effeithiol o gefnogi dysgwyr sydd weithiau yn absennol o'r dosbarth dros gyfnod hir o amser ac yn ffordd effeithiol o dorri'r garw ar gyfer dychwelyd i'r dosbarth. Mae hefyd yn fanteisiol i ddysgwyr sydd angen cefnogaeth ychwanegol. Cyn dechrau mentora rhaid cyflwyno'ch hun a darganfod rhai ffeithiau am y dysgwr - 'roedd holiadur byr a thasg syml yn ffordd effeithiol o wneud hyn. Mae magu perthynas drwy gyfrifiadur yn anodd a rhaid oedd synhwyro faint o gyswllt oedd yn briodol. Mae canolbwyntio ar thema yn gymorth ynghyd a defnyddio'r gystrawen briodol ar gyfer lefel y dysgwr. Wrth gywiro mae'n bwysig canolbwyntio ar rai pethau'n unig a defnyddio lliwiau penodol. Y peth pwysicaf yw cadw'r elfen o hwyl a pheidio llethu'r dysgwr.
Diolchodd y Cadeirydd yn gynnes iawn i Ann Rhian Hughes am ei chyflwyniad.

11. **Materion i sylw'r Panel Adnoddau Cenedlaethol**
Dim byd am y tro ond rhoddwyd sylw i'r canlynol fel materion o ddiddordeb:

- pecyn cyflwyno i fyfyrwyr newydd - mae pecyn electronig ar gael i'w addasu gan ddarparwyr
- mae CBAC yn cyhoeddi pecyn i'w ddefnyddio ar lefel Hyfedredd
- bydd cyflwyniad yn y cwrs i diwtor drefnyddion yn Llangollen gan y Prifardd Cyril Jones ar becyn sydd wedi ei greu ar sut i ddefnyddio barddoniaeth mewn dosbarthiadau ar draws y lefelau.

12. **Arholiadau CBAC** –

- bu i'r arholiad Mynediad gael ei chynnig ym mis Ionawr eleni am y tro cyntaf a 61 ymgeisydd o'r gogledd yn llwyddiannus.
- 'Roedd ymrestriadau Mynediad ychydig yn is eleni ond mae'r heddlu bellach yn defnyddio system arholi arall ac o ddiystyru eu hymgeiswyr yn 2008 mae yna ychydig o gynnydd.
- Cynnydd hefyd ar lefel Sylfaen a niferoedd Canolradd ac Uwch yn debyg iawn.
- Bydd ystadegau ystyrlon ar gael yn y cyfarfod nesaf pan fydd ffigurau terfynol yn hysbys.
- Mae teimlad fod y cyfnod rhwng ymrestru a derbyn llythyr gan CBAC yn cadarnhau manylion arholiad yn un hir ac felly mae'r Ganolfan am gysylltu efo ymgeiswyr yn y cyfamser o hyn ymlaen yn y gobaith o osgoi newidiadau munud olaf.

13. **Digwyddiadau** - Dim penodol i'w adrodd.

14. **Cyfarfod nesaf:** Penderfynwyd cynnal cyfarfodydd dair gwaith y flwyddyn (un ym mhob tymor) o 2009/10 ymlaen, a hynny ar brynhawn Mercher yng Ngholeg Llandrillo Cymru, Bae Colwyn.

<u>Dyddiadau 2009 /2010</u>

Dydd Mercher, 14eg Hydref 2009

Dydd Mercher, 3ydd Chwefror 2010

Dydd Mercher, 26ain Mai 2010

Minutes of the Provider Panel 17/06/09 – 1.30pm Madog Room, Coleg Llandrillo

Present:

Liz Williams, Coleg Glannau Dyfrdwy; Ann Rhian Hughes, Coleg Menai; Jane Watkins, Coleg Llysfasi; Pam Evans-Hughes, WfAC; Siwan Hywel, WfAC; Ifor Gruffydd, WfAC; Sian Eirian, WfAC; Haydn Hughes, WfAC; Dafydd Rhys, CHWEA; Frances Jones, Popeth Cymraeg; Howard Edwards, Popeth Cymraeg; David O Jones, Glyndŵr University; Kevern Kerswell, Coleg Iâl; Jina Gwyrfai, WfAC; Catrin Keller, Coleg Llandrillo; Ellen Roberts, WfAC.

1. **Apologies:** Rhian McCarthy, Coleg Llandrillo; Llinos Hicks, CHWEA; David Hedley Williams, Nant Gwrtheyrn; Elwyn Hughes, Bangor University; Myfi Brier, Coleg Llysfasi; Dona Padan, Coleg Llysfasi; Eleri Swift Jones, Bangor University; Sharon Owen, Coleg Menai

In the absence of Elwyn Hughes, Ifor Gruffydd took the chair.

2. **Minutes -** The minutes of the meeting, held on 25 March 09, were confirmed as correct.

3. **Matters Arising** – every point that needed to be raised was on the agenda.

4. **Director's Report**
   - The need to promote the examinations as being free of charge was emphasised and IG reminded the members that the purpose of this was to ensure consistency with the OCN units (where learners are not charged for credits). In addition, he noted that providers would receive completion funding in the case of successful examination candidates.
   - Provider Agreements – the Centre will ask the heads who sign the agreements to ensure that their staff who are responsible for WfA provision are aware of all the requirements of the agreement.

5. **Development Officers Report** – a report was presented by the Development Officers.
   - Jina Gwyrfai went through the 2008-2009 targets and the analysis of the provision and reported on the situation with regard to the 2009-2010 programme.
   - Pam Evans Hughes showed the new leaflets that have been prepared by the Centre staff for the TWF course; these are now ready for use. Unfortunately, TWF does not have an officer working in the Flint and Wrexham counties and therefore there is no provision there. However, the number of sessions is on the increase in every other county.
   - An immersion course has commenced in Ysgol Llewelyn for the parents of children who will be transferring to Ysgol Glan Clwyd.
   - WJEC won the tender to develop the Welsh for the Family national course and it will be written by Owen Saer and Pam Evans Hughes. It will be piloted in 2010/2011 and the Centre will ask CHWEA to introduce this course in North Wales as a mainstream course, and at Access level to begin with.
   - The Centre has copies of the Welsh Language Board Guidelines on making provision for the workplace and these will be distributed to the providers.
   - Coleg Llysfasi has launched a CD for the emergency services and has developed teaching resources.
   - Coleg Menai has developed an on-line mentoring system for court workers – see Ann Rhian Hughes' presentation - item 10.
   - Jina Gwyrfai appealed to the providers to share information about courses, resources and so on, that they are developing for the workplace.
   - The Oriel Ynys Môn resource has been given a name – Cynfas Celf – and this will be piloted in the University Summer School this year.

6. **Informal Learning** – Siwan Hywel presented a report on recent developments. She drew attention to some of the main points:
   - There have been changes in the Welsh Language Board targets and priorities. The Mentrau continue to operate and now invite learners to their events rather than make specific arrangements for them.
   - Thanks were offered for all the contributions to the Centre's News-sheet that is about to be published.
   - It will soon be possible to record details of extracurricular activities for learners on the Centre's website www.learncymraeg.org
   - While acknowledging that there are practical difficulties in ensuring that part-time tutors contribute to learning activities outside the classroom, due to the increasing weight that DCELLS and ESTYN, among others, attach to informal learning, providers will need to invest a portion of their allocation to informal learning activities in 2009/10.

7. **Training** – HH presented a report on recent developments, drawing particular attention to the following:
   - Tuesday will be the tutors' day on Maes D at the Bala Eisteddfod and certificates will be presented to those who completed the Qualification in 2008.
   - Modules 1 and 2 of the 2008–2010 Qualification and the teaching practice have been completed. Every candidate has been observed and a sample has been externally observed. The external observer was very pleased and every candidate passed. Modules 3 and 4 will be completed during the coming year.
   - The North Wales Centre will offer the 2009-10 Qualification in a year and the recruitment has already begun. If providers have tutors who need to qualify then they should contact the Centre forthwith.
   - The Centre will draw up a draft programme of the training it intends to offer in the next year and will circulate this and invite comments. Members were asked to inform the Centre of anything they would wish to see offered in addition. The programme will be discussed at the tutor-organizers course in Llangollen in July.
   - The names of potential tutors who have completed a round of training either over 3 weekends or in the Summer School will be circulated to the providers.

8. **Data** – IG presented an oral report. He noted that:
   - Every provider had either reached their target or was near to doing so. He was confident that the Centre would achieve its target as a region and would secure an increase in funding of 10% in 2009/10 and he thanked all for their hard work in securing this. GS and IG are holding meetings with data officers and WfA providers in order to facilitate the process of data submission for both parties in 2009/10.

9. **Publicity and Marketing**
   IG presented an oral report and he noted the following:
   - The Centre was keen to receive stories from North Wales for every issue of 'Y Tiwtor' and thus there was a plea for anecdotes to be passed on.
   - The Centre's booklet will be published again this year.
   - The Centre has ensured a presence and input into the activities on Maes D in the Bala Eisteddfod. Anyone who wishes to make a contribution should contact the Centre's staff.
   - The Centre hopes to use 'Heart FM' radio to raise awareness about the Centre and of learning Welsh throughout North Wales. This will support the work of promoting courses that providers themselves are doing

10. **On-line Mentoring Programme – a presentation by Ann Rhian Hughes, Coleg Menai**
This was a project that was developed over a period of a year for workers at Courts throughout Wales. It is an effective way of supporting learners who are sometimes absent from the class over a long period of time and is an effective method of breaking the ice for returning to the class. It is also beneficial for learners who need additional support. Before you commence mentoring you need to introduce yourself and discover some facts about the learner – a short questionnaire and a simple task was an effective method of doing this. Developing a relationship over the computer is difficult and it was necessary to sense how much contact was appropriate. Focussing on a theme is helpful as well as using the appropriate sentence structure for the level of the learner. When making corrections it is important to concentrate only on some points and use specific colours. The main thing is to preserve the element of fun and not to overload the learner.
The Chair thanked Ann Rhian Hughes very warmly for her presentation.

11. **Issues for the attention of the National Resource Panel**
Nothing for the time being but the following were highlighted as matters of interest:
- An introductory pack for new students - an electronic pack is available to be adapted by providers
- WJEC is publishing a pack to be used at Proficiency level
- There will be a presentation at the tutor-organizer course in Llangollen by the Chief Poet Cyril Jones on a pack which has been produced on how to use poetry in classes across the levels.

12. **WJEC Examinations -**
- The Access examination was offered in January of this year for the first time and 61 candidates from North Wales were successful.
- Access enrolments were slightly lower this year but the police are now using another examination system and when their candidates in 2008 are discounted there is a small increase.
- There was an increase also at Foundation level and the numbers at Intermediate and Advanced levels were very similar.
- Meaningful statistics will be available at the next meeting when the final numbers are known.
- There is a feeling that the period between enrolment and the receipt of the letter from WJEC confirming the examination details is a long one and therefore from now on the Centre will contact the candidates again in the intervening period in the hope of avoiding last minute changes.

13. **Events** – nothing specific to relate

14. **Next Meeting:** It was decided to hold meetings three times a year (one in each term) from 2009/10 onwards, on a Wednesday afternoon at Coleg Llandrillo Cymru, Colwyn Bay.

<u>2009/2010 Dates</u>

Wednesday, 14th October 2009

Wednesday, 3rd February 2010

Wednesday, 26th May 2010